

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Fehefin 2018.

- 1 Presennol - Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry - Bryncir, John Jones Clifford Williams - Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans - Prenteg, Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa, Huw Pritchard-Pentrefelin, Megan Lloyd Williams Amanda Noutch Owen - Golan. Cynghorydd Stephen Churchman.
- 2 Ymddiheuriadau - Anwen Humphreys, Maldwyn Owen, Dafydd Thomas, Delyth Evans, Eifion Williams.
- 3 Ddim yn bresennol - neb.
- 4 Datgan Buddiant - Eitem 20 Cais cynllunio Caer Ffynnon Garndolbenmaen - Richard Williams.
- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion - Cofnodion - 3/5/18.
John Jones yn datgan eu cywirdeb a Richard Parry yn eilio.
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Materion Priffyrdd - Pentrefelin - trefnir i gadarnhau bod y systemau draenio o fewn y briffordd uchlaw'r safle yn gweithio'n effeithiol.
Golan - trefnir i'r archwilwyr priffyrdd ymweld â'r safle dan sylw.
Penmorfa - cyfeiriwyd y mater at Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Prenteg - cynhwysir andewyddu'r marciau gwyn ar y rhestr waith. Clerc i gysylltu i ofyn iddynt wneud y marciau gwyn ar y troad ar frys.

Meddygfeydd - Derbyniwyd atebion yn nodi fod y dyddiadau hyfforddiant yn cael eu hysbysebu yn y meddygfeydd unigol. Penderfynwyd nodi yn yr Adroddiad i'r Wasg y dylai trigolion gysylltu o flaen llaw gyda'u meddygfa i gael copi o'r dyddiadau.

Llwybr Rhif 1 Mynydd Glas i Garreg Lwyd - nid yw swyddog o'r Adran Hawliau Tramwy wedi cael cyfle i ymweld â'r llwybr.

- 7 Mynwentydd

Mynwent Bethel - sbwriel yn casglu yno.

Mynwent Prenteg - bin yn llawn.

Clerc i gysylltu gyda'r contractwr i'w hatgoffa o dermau'r cytundeb.

8 Llwybrau Cyhoeddus - dim i'w adrodd.

9 Adroddiad Pentrefi -

Pentrefelin

Derbyniwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd i hysbysu'r Cyngor Cymuned fod y fainc yn y lloches bws tu allan i Blas Gwyn wedi torri. Clerc wedi holi Dylan Edwards am bris i ailosod hwn gyda phren.

Garndolbenmaen

Llifogydd Cae Llyn - Clerc i yrru lluniau at yr Adran Priffrydd.

10 Mabwysiadu penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

Mae'r Panel wedi gwneud nifer o newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol aelodau Cyngorau Cymuned a Thref. Mae'n rhaid i gynghorau cymuned gytuno pa benderfyniadau, os o gwbl sy'n cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.

Penderfyniad 45 - Taliad o £150 y flwyddyn ar gael i bob aelod. Gall aelodau unigol ddewis peidio â derbyn y taliad trwy roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Clerc. Bydd taliadau yn cael eu gwneud ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd rhaid i'r aelod unigol wneud trefniadau i dalu treth ar y taliad. Gwenno Emlyn Huws yn cynnig fod y Cyngor yn derbyn y penderfyniad ac Amanda N Owen yn eilio.

Penderfyniad 47 - Mae gan gynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C yr awdurdod i wneud taliad blynyddol o £500 yr un i hyd at 5 aelod. Gwilym Evans yn cynnig fod y Cyngor yn gwrthod y penderfyniad ac Amanda N Owen yn eilio.

Penderfyniad 48 - Ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 49 - Lwfans ar gyfer arhosiad dros nos. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 50 - Digolledu am golled ariannol. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 51 - Ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad.

Bydd manylion unrhyw daliadau yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

11 Arwyddion cau ffordd - Mynegwyd pryder ynglŷn â'r arwyddion cau ffordd sydd wedi eu gosod yn ddiweddar, gan gontractwyr sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw ar y ffyrdd. Cafwyd achosion o gyfarwyddiadau anghywir, arwyddion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dweud pethau hollol wahanol. Gall hyn achosi oedi mewn sefyllfa argyfwng. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am hysbysu'r Cyngor Cymuned o unrhyw fwriad i gau ffordd.

12 Gwefan - Adroddodd y Clerc y bydd newidiadau i'r Ddeddf Diogelu Data yn golygu eu bod hi'n orfodol i'r Cyngorwyr gael cyfeiriad penodol ar gyfer gwaith y Cyngor. Clerc i holi Cymru1 pa bryd fydd y cyfeiriadau e-bost newydd yn barod, os yw'n bosib rhoi dogfennau'r Cyngor ar ran o'r safle we gyda mynediad cyfyngol i'r Cyngorwyr. Clerc i barhau gyda'r gwaith o lunio polisi Diogelu Data a holi cwmni Zurich os yw'r polisi presennol yn ddigonol petai cwyn yn cael ei dderbyn.

13


Eitem caeëdig.

14 Cyngor Gwynedd - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ffioedd Claddu Plant - Cytunodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar drwy rinwedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru i fabwysiadu dull teg a chyson trwy Gymru ar gyfer ffioedd a godir gan lywodraeth leol i gladdu ac amlosgi plant. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw na fydd awdurdodau claddu yng Nghymru yn codi unrhyw ffioedd mewn perthynas â chladdu neu amlosgi person dan 18 oed. Penderfynwyd mabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Amanda N Owen yn cynnig a Richard Parry yn eilio. Bydd angen addasu'r Rheolau Claddu yn y cyfarfod nesaf.

15 Arolwg Mynwentydd

Prenteg (RW GE)

Coed yn tyfu ar rhai o'r beddau. Gwilym Evans am eu torri.
Un bedd wedi suddo.

Cwm Pennant (EE JJ)

Bylchau yn y wal wrth yr hen gwt.
Un garreg fedd yn rhydd.
Gofyn i Dylan Edwards am bris i wneud y gwaith

Llechi oddi ar do'r Eglwys. Clerc i gysylltu gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Ynyscynhaearn (HP DE)

Hen fedd yn rhydd ar gyfer yr adwy o'r hen fynwent i'r fynwent
newydd. Huw Pritchard am roi rhybudd arno.

Mynwent Bethel Mynwent Penmorfa - arolwg i'w cynnal cyn cyfarfod
Gorffennaf.

- 16 Rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan - Ers dros 10 mlynedd, mae cysylltiad wedi bodoli rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r ysgolion lleol. Mae'r berthynas yma wedi galluogi i'r ysgolion gael ymweliadau cyson gan aelodau'r heddlu i rannu gwybodaeth ynglŷn â diogelwch personol, cyffuriau, ayb. Yn ddiweddar, mae'r Cynulliad wedi penderfynu tynnu'r cyllid yn ôl. . Clerc i gysylltu gyda'r Aelodau Seneddol Lleol, Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad, Y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru i ddatgan siom fod rhaglen mor safonol yn dirwyn i ben.

- 17 Pont y Traeth - Derbyniwyd e-bost gan Osian Richards, Cyngor Gwynedd, yn cynnwys opsiynau ar gyfer yr arwyddion newydd sydd i'w gosod ar Bont y Traeth. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gydag ef i'w hysbysu y byddai un arwydd gyda Phont y Traeth Afon Glaslyn arno yn fwy addas, gan mai pont y rheilffordd yw Pont Croesor. Hefyd, ei atgoffa bod Pont Croesor yn enw ar bont ym mhentref Croesor.

- 18 Dogfennau'r Cyngor - Penderfynwyd bod rhaid mynd trwy ddogfennau'r Cyngor. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu yn y dyfodol i wneud hyn.

- 19 Gohebiaeth
a Cyngor Gwynedd - Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gyda Ynys Môn a Gwynedd - cymysgedd Tai, Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid.
b Unllais - ymateb i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref.
Cynulliad - Adolygiad o'r sector Cyngorau Cymuned a Thref yng
c Nghymru - cylchlythyr Ebrill. Er gwybodaeth.
Cyngor Iechyd Cymru - Datganiad i'r Wasg - Breuder gofal Meddygon
ch Teulu y tu allan i oriau yng Nghymru. Er gwybodaeth.

- 20 Cynllunio
Rhestrau 7/5, 14/5, 18/5, 30/5. Ychwanegwyd rhestr 1/6/18.

Ceisiadau Cynllunio

Cais NP2/16/320A Cais i newid beudy yn uned gwyliau - Cae Fadog Isaf, Cwm Pennant. Dim gwrthwynebiad.

Cais NP2/16/170D Adeiladu man ymarfer ceffylau - Lon Gert, Garndolbenmaen. Dim gwrthwynebiad.

Ychwanegwyd

C18/0458/36/LL - Dymchwel man adeilad presennol a chodi sied amaethyddol newydd Caer Ffynnon, Garndolbenmaen. Dim gwrthwynebiad.

- 21 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dim.

Gosod dyddiadau i archwilio'r llyfrau yn chwarterol - Gorffennaf - Huw Pritchard, Delyth Evans.

Hydref - Richard Parry, Edward Evans.

Ionawr - Gwilym Evans, Richard Williams.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc = £ 237.99

Ffôn = £ 10.00

Cyfrifiadur = £ 15.00

HMRC = £ 56.97

Ychwanegwyd

Aled Jones = £ 75.00

Cyflog Clerc (mis Mai) = £ 252.90

Cyngor Gwynedd praesept £6000

Derbyniadau - Pritchard & Griffiths £140.00.

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,778.47 Cyfredol - £6,810.89.

- 22 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg -

- Meddygfeydd.
- Rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyda'r heddlu.
- Ceisiadau cynllunio.

